*Mae'r ddogfen yma ar gael yn Gymraeg* **Rhif ar yr agenda 14**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **18 Mawrth 2019** |
| Swyddog Arweiniol | **Simon Smith, Prif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau)** |
| Pwnc | **Penodi Swyddog Monitro/Clerc** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1. Pwrpas yr adroddiad yw

   (i) rhoi gwybod i'r Aelodau am ganlyniad y broses gaffael gystadleuol ar gyfer darparu Swyddog Monitro/Clerc i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) o'r 1 Ebrill 2019 ymlaen;

   (ii) ceisio cymeradwyaeth i benodi Colin Everett, Cyngor Sir y Fflint i'r swydd.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2. Gan fod y contract presennol ar gyfer darparu swyddog monitro/clerc a dirprwy glerc i'r Awdurdod yn dod i ben ar 31 Mawrth 2019, roedd yr aelodau wedi cael gwybod eisoes fod proses gaffael gystadleuol yn cael ei chynnal ar gyfer darparu Swyddog Monitro/Clerc i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) o'r 1 Ebrill 2019 ymlaen. Mae'n ofyniad statudol fod yr Awdurdod yn cael swyddog monitro.

3. Dan delerau cyfansoddiad yr Awdurdod, nid yw penodi i swyddi statudol yr Awdurdod yn fater sydd wedi'i ddirprwyo, ac mae'n fater sydd wedi'i gadw i'r Awdurdod llawn. Felly, rhaid i'r penodiad gael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod llawn.

**SYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

4. Nid yw'r adroddiad wedi cael ei ystyried o'r blaen. Roedd y broses gaffael yn cynnwys cyfweliad ffurfiol a gafodd ei gynnal gan Aelodau o'r Panel Gweithredol. Fe wnaeth yr Aelodau argymell y dylid rhoi'r contract i Colin Everett o Gyngor Sir y Fflint.

**ARGYMHELLIAD**

5. Bod yr Aelodau'n:

   (i) nodi bod y broses gaffael gystadleuol wedi cael ei chwblhau ar gyfer darparu swyddog monitro/clerc a dirprwy glerc o'r 1 Ebrill 2019 ymlaen;

   (ii) cymeradwyo penodi Colin Everett o Gyngor Sir y Fflint yn Swyddog Monitro/Clerc am gyfnod o bedair blynedd yn dechrau ar 1 Ebrill 2019.

**CEFNDIR**

6. Cafodd swydd statudol y swyddog monitro ei sefydlu gan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 fel y'i diwygiwyd gan Atodlen 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

7. Mae'r swydd yn cynnwys y meysydd cyfrifoldeb canlynol:

   a. sicrhau bod yr Awdurdod yn cyflawni ei swyddogaethau drwy roi ystyriaeth briodol i gyfreithlondeb a thegwch ei broses o wneud penderfyniadau, gan gefnogi'r pwyllgor safonau a delio â materion yn ymwneud â'r cod ymddygiad;

   b. sicrhau bod cyfarfodydd yr Awdurdod yn cael eu gweinyddu yn unol â'r statudau perthnasol, y rheoliadau a'r cyfansoddiad, a delio â materion cyfreithiol a gweithdrefnol;

   c. sicrhau bod y cyfansoddiad yn parhau'n gyfoes ac yn berthnasol, a rhoi cyngor ar ddehongli'r cyfansoddiad pan fo angen;

   ch. sicrhau'r trefniadau cyffredinol ar gyfer y prosesau llywodraethu a democrataidd, gan gynnwys er mwyn:

      - cadw cofrestr o fuddiannau'r Aelodau;
      - darparu cyngor a hyfforddiant i'r Aelodau am faterion cyfansoddiadol;
      - paratoi'r cynllun ar gyfer talu'r Aelodau; a
      - materion perthnasol eraill yn ôl yr angen, megis mynychu cyfarfodydd gweithgorau cynllunio, a chymryd rhan yn y broses o benodi Prif Swyddogion.

**GWYBODAETH**

8. Mae rheolau sefydlog yr Awdurdod ar gyfer contractau yn golygu bod rhaid dilyn egwyddorion caffael yn y sector cyhoeddus. Cafodd proses gaffael ffurfiol ei chynnal er mwyn sicrhau tryloywder, tegwch a gwerth am arian.

9. Mae swydd y swyddog monitro yn gofyn am wybodaeth benodol am drefniadau awdurdodau lleol mewn perthynas â llywodraethu, statudau, rheoliadau a'r codau perthnasol. Roedd y broses gaffael yn golygu bod modd rhoi ystyriaeth lwyr i'r agweddau technegol hyn wrth ddyfarnu'r contract.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae trefniadau llywodraethu cadarn yn ffactor allweddol wrth sicrhau bod yr Awdurdod yn gweithredu yn unol â'i amcanion llesiant. |
| Cyllideb | Dyma swydd statudol, ac mae darpariaeth yn y gyllideb ar ei chyfer. |
| Cyfreithiol | Mae penodi Swyddog Monitro yn ofyniad statudol. |
| Staffio | Ni chanfuwyd unrhyw effaith. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Roedd y broses gaffael yn rhoi sylw dyledus i gydymffurfio â'r agweddau hyn. |
| Risgiau | Byddai methu â phenodi yn golygu y gallai'r Awdurdod beidio â chyflawni ei gyfrifoldeb statudol a bod yn agored i her gyfreithiol a pherygl i'w enw da. |